# DYFARNIAD LEFEL 2 RSPH MEWN ATAL A RHEOLI HEINTIAU AR GYFER YMARFERWYR TRINIAETHAU ARBENNIG

**Papur: ENGHREIFFTIOL (Cymru)**

ENGHREIFFTIOL

CYFARWYDDIADAU I'R YMGEISYDD

Rhaid gadael y papur hwn ar eich desg ar ddiwedd yr arholiad.

2. Dylech roi eich atebion ar y daflen atebion yn y llyfryn hwn.

Trowch y dudalen glawr drosodd ac fe welwch y Daflen Ateb. Dylech ddatgysylltu hwn yn ofalus o'r llyfryn ar ddechrau'r arholiad.

3. Mae gennych chi 5 munud cyn dechrau'r arholiad i gwblhau eich manylion ar y daflen atebion. Bydd y Goruchwyliwr yn dweud wrthych pryd i ddechrau'r arholiad.

4. Dim ond UN ateb cywir sydd i bob cwestiwn.

5. Mae gennych chi UN AWR i gwblhau'r arholiad.

6. Mae'r papur arholiad hwn yn cynnwys 30 cwestiwn.

7. Dylech ateb yr holl gwestiynau.

8. I lwyddo yn yr arholiad hwn, rhaid cael marc o 25/30


© Royal Society for Public Health

**1. Mae Staphylococcus aureus yn:**

A. Bacteriwm
B. Feirws
C. Ffwng
D. Protosoa

**2. Dangoswyd bod HIV yn aros yn heintus mewn toddiannau dyfrllyd (yn seiliedig ar ddŵr) ar dymheredd ystafell am ba hyd?**

A. 24 awr
B. 7 diwrnod
C. 2 wythnos
D. 1 mis

**3. Beth yw keloid?**

A. Hylendid gwael o gwmpas y safle tyllu sydd ddim yn niweidiol i iechyd
B. Arwydd o haint sy'n galw am driniaeth feddygol
C. Math ffibrog o feinwe craith, sydd ddim yn niweidiol i iechyd
D. Pothell y dylid ei byrstio cyn gynted â phosibl

**4. Sut y dylid rheoli cleient sydd ag alergedd i latecs?**

A. Osgoi defnyddio menig amddiffynnol a golchi eich dwylo'n drylwyr cyn dechrau'r driniaeth
B. Gallwch ddefnyddio menig Latex oherwydd ei bod yn annhebygol y bydd y cleient yn dioddef adwaith
C. Osgoi trin y cleient yn llwyr gan fod y cleient mewn perygl uchel o sgil effeithiau niweidiol
D. Defnyddio menig nitril yn hytrach na menig latecs i osgoi unrhyw adwaith alergaidd

**5. Pa rai o'r canlynol sy'n symptomau sepsis?**

A. Llewygu, poen, salwch
B. Cleisiau, cochni, chwydd
C. Twymyn, gwres uchel, anadlu'n gyflym
D. Brech, cosi poenus o amgylch y safle tyllu

**6. Mae bacteria a firysau yn gallu mynd i mewn i'r corff drwy:**

A. Croen wedi torri
B. Croen sydd ddim wedi torri
C. Croen sych
D. Croen seimlyd

**7. Beth yw'r ffordd FWYAF effeithiol y mae ymarferwr yn gallu lleihau'r risg o haint i gleient?**

A. Cadw cofnodion manwl o gleientiaid
B. Cynnal archwiliadau rheolaidd
C. Defnyddio arferion hylendid da
D. Meddu ar yswiriant atebolrwydd cyhoeddus da

**8. Pa un o'r canlynol yw'r ffordd ORAU i ymarferwr drin clwyf ar y bys i sicrhau diogelwch y cleient?**

A. Rhoi eli arno
B. Ei orchuddio â rhwymyn
C. Ei adael yn agored i'r aer
D. Ei orchuddio â gorchudd gwrth-ddŵr

**9. Mae 6 dolen yn y 'Gadwyn Heintio' Mae'r rhain yn cynnwys pob un o'r canlynol AC EITHRIO:**

A. Hylendid dwylo

ENGHREIFFTIOL


© Royal Society for Public Health

B. Llwybr ymadael
C. Cronfa
D. Dull trosglwyddo

**10. Yn y 'Gadwyn Heintio', pa un o'r canlynol sydd DDIM yn enghraifft o 'Lwybr Mynediad':**
A. Offeryn
B. Croen wedi torri
C. Y geg
D. Clwyf

**11. O dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, mae'r canlynol yn driniaethau arbennig ac eithrio:**
A. Microlafnu
B. Tyllu'r corff
C. Tynnu â laser
D. Electrolysis

**12. Mae person sy'n ei gael yn euog o roi triniaeth arbennig heb drwydded unigol, os caiff euogfarn ddiannod, yn agored i:**
A. Gyfnod o garchar
B. Dirwy ddigyfyngiad
C. Dirwy o hyd at £5,000
D. Dirwy o hyd at £10,000

**13. Pa un o'r canlynol sy'n gymhlethdod o glwyf yn gwella?**
A. Llid
B. Ymlediad
C. Casgliad
D. Haint

**14. Pa elfennau o'r isgroen (dermis) a allai beri risg o haint i'r ymarferydd?**
A. Terfynau nerfau
B. Pibellau gwaed
C. Chwarennau chwys
D. Cyhyrau

**15. O dan ba amgylchiadau NI ddylai cleient gael triniaeth arbennig?**
A. Maen nhw dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol
B. Maen nhw'n dweud eu bod yn HIV positif
C. Maen nhw newydd ddod yn ôl o wyliau yn India
D. Maen nhw'n gofyn os cawn nhw fynd allan am sigarét cyn dechrau'r driniaeth

**16. Yn ystod y sesiwn cyn-ymgynghori, mae cleient newydd yn dweud wrth yr ymarferydd ei fod yn dioddef o ddiabetes. Beth ddylai'r ymarferydd ei wneud nesaf?**
A. Gofyn am nodyn gan ei feddyg i gadarnhau ei fod mewn cyflwr addas i gael y driniaeth
B. Bwrw ymlaen â'r driniaeth arbennig fel arfer
C. Gwrthod rhoi'r driniaeth arbennig
D. Trafod y diabetes gyda'r cleient ac os yw'n rheoli'r salwch, bwrw ymlaen â'r driniaeth

**17. Beth yw'r ffordd FWYAF effeithiol o atal heintiau rhag lledaenu?**
A. Gwisgo masg wyneb
B. Pesychu i mewn i hances bapur
C. Golchi'r dwylo
D. Gwisgo ffedog untro

**18. Pa rai o'r nwyddau canlynol NA ddylid eu defnyddio i lanhau'r dwylo?**
A. Sebon hylif


© Royal Society for Public Health



ENGHREIFFTIOL

B. Rwbiau dwylo
C. Sebon ewyn
D. Sebon caled

**19. Pa lefel o ragofalon rheoli heintiau y dylid eu rhoi ar waith wrth ymarfer mewn lleoliad neu ddigwyddiad dros dro?**
A. Yr un rhagofalon ag a roddir ar waith mewn lleoliad parhaol
B. Llai o ragofalon nag mewn lleoliad parhaol
C. Nid oes angen unrhyw ragofalon gan mai'r rhai sy’n trefnu’r digwyddiad sy’n gyfrifol
D. Mwy o ragofalon nag a roddir ar waith mewn lleoliad parhaol

**20. Dylai ardal driniaeth busnes Triniaeth Arbennig:**
A. Fod wedi'i dylunio i leihau’r perygl o draws-heintio gymaint â phosibl
B. Caniatáu mynediad rhwydd i gleientiaid ac ymarferwyr
C. Bod â mynediad cyflym i doiledau ac ystafelloedd storio
D. Bod ar un lefel er mwyn ei gwneud hi’n hawdd ei glanhau

**21. Techneg a ddefnyddir i wneud pa un o'r canlynol yw techneg aseptig:**
A. Sicrhau amgylchedd di-haint
B. Atal halogiad oherwydd micro-organebau pathogenaidd
C. Cadw’r amgylchedd gwaith yn lân ac yn daclus
D. Glanhau theatrau llawfeddygol mewn ysbytai

**22. Beth mae'r symbol hwn yn ei olygu?**


A. Defnyddio eto
B. Peidio byth â’i ddefnyddio mwy na dwywaith
C. Ei ddefnyddio unwaith yn unig
D. Ei waredu ar ôl ei ddefnyddio

**23. Mae ffyrnau awtoclaf yn defnyddio:**
A. Proses o'r enw ceudodi i lanhau cyfarpar triniaeth arbennig yn effeithiol
B. Stêm dan bwysau i sterileiddio cyfarpar triniaeth arbennig
C. Stêm i lanhau a diheintio cyfarpar triniaeth arbennig
D. Cemegau penodol i ddiheintio a sterileiddio cyfarpar triniaeth arbennig

**24. Mae angen digon o amser cyswllt ar ddiheintyddion i weithio oherwydd:**
A. Mae angen amser i leihau bacteria i lefel ddiogel
B. Mae angen i'r dŵr gael amser i oeri
C. Dros gyfnod o amser maen nhw’n cryfhau
D. Mae diheintyddion yn cymryd amser hir i ladd sborau

**25. Rhaid i Ymarferydd newid ei fenig yn yr holl amgylchiadau canlynol, AC EITHRIO:**
A. Hanner ffordd drwy’r driniaeth arbennig
B. Ar ôl cwblhau triniaeth arbennig
C. Pan mae bwlch yn y driniaeth
D. Os yw'r menig yn torri wrth gael eu defnyddio

**26. Pa ddatganiad am ddillad amddiffynnol sy’n gywir?**
A. Rhaid eu newid ar ddechrau pob mis
B. Maen nhw’n lleihau’r risg o heintio
C. Gellir eu gwisgo ar y ffordd i’r gwaith
D. Rhaid iddynt fod yn wyn

**27. Pa un yw’r ffordd FWYAF diogel ac effeithiol o gael gwared o arllwysiad mawr o hylif corff?**
A. Defnyddio mop a diheintydd
B. Defnyddio pecyn hylif y corff ac yna defnyddio'r drefn glanhau dau gam
C. Defnyddio tywelion papur ac yna defnyddio glanedydd

ENGHREIFFTIOL


© Royal Society for Public Health

D. Defnyddio pecyn hylif y corff a sugnydd llwch

**28. Er mwyn cael gwared â nodwyddau sydd wedi cael eu defnyddio mewn modd glanwaith a diogel, rhaid gosod blwch offer miniog:**

A. Mewn man sy'n ganolog i'r holl ystafelloedd triniaeth
B. Yn y dderbynfa
C. Ym mhob ystafell driniaeth
D. Wrth ymyl yr awtoclaf

**29. Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o bobl yn dod i gysylltiad â hylifau'r corff, dylid rheoli mynediad i'r ystafell driniaeth drwy wneud y canlynol:**

A. Caniatáu i'r cleient ddod â'i ffrindiau gydag ef/hi
B. Cyfyngu mynediad i'r ymarferydd a'r cleient yn unig
C. Cyfyngu mynediad i berthnasau agos yn unig
D. Caniatáu i drydydd parti ffilmio'r driniaeth

**30. Mae offer miniog yn cynnwys yr holl eitemau canlynol AC EITHRIO:**

A. Nodwyddau
B. Raseli
C. Sbatwlâu
D. Llafnau

**DIWEDD Y PAPUR**

ENGHREIFFTIOL


© Royal Society for Public Health